**<u>Mai 2021</u>**

**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**CYLCH GORCHWYL - Y PWYLLGOR RECRIWTIO A DERBYN**

1. *Adrodd*

   Mae'r Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yn adrodd i'r Senedd.

2. *Amlder Cyfarfodydd*
   Mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf unwaith bob tymor. Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd arbennig. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio cyfleusterau e-bost neu ffôn/fideo-gynadledda fel y bo'n briodol i ymgymryd â'i fusnes yn effeithiol.

   Mae dyddiadau'r cyfarfodydd y cytunwyd arnynt ar gyfer sesiwn academaidd 2020-21 fel a ganlyn:
   18 Tachwedd 2020
   10 Chwefror 2021
   12 Mai 2021
   Tachwedd 2021 i'w gadarnhau

3. *Cyfansoddiad*

   Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys:

   Cadeirydd
   Dau aelod o'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd
   Dau aelod o'r Pwyllgor Rheoliadau Academaidd ac Achosion Arbennig
   Dau aelod o'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni
   *Cynrychiolwyr o'r Colegau (dau aelod, y gall un ohonynt fod yn gynrychiolydd derbyn myfyrwyr y Coleg)*
   - Y Celfyddydau a'r Dyniaethau (dau aelod)
   - Peirianneg (dau aelod)
   - Y Gwyddorau Dynol ac Iechyd (dau aelod)
   - Y Gyfraith a Throseddeg (dau aelod)
   - Rheolaeth (dau aelod)
   - Meddygaeth (dau aelod)
   - Meddygaeth i Raddedigion (dau aelod)
   - Gwyddoniaeth (dau aelod)

   Cynrychiolydd o ELTS
   Cynrychiolydd o'r Coleg
   Llywydd Undeb y Myfyrwyr
   Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr
   Swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd:
   Cyfarwyddwr Cysylltiol MRID
   Pennaeth Derbyn Myfyrwyr
   Pennaeth Derbyn Myfyrwyr Israddedig
   Pennaeth Derbyn Myfyrwyr Ôl-raddedig

Pennaeth Polisi a Phrosiectau (Swyddfa Derbyn Myfyrwyr)
Pennaeth y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol
Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr y DU
Ysgrifennydd i'r Pwyllgor Recriwtio a Derbyn

Dylid rhoi 'sylw dyladwy ’ i ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

4. *Tymhorau Penodiad*

Penodir Aelodau Lleyg o'r Cyngor am bedair blynedd yn y lle cyntaf, a gellir estyn penodiad am ail dymor, heb fod yn hwy na phedair blynedd.

Nid oes cyfyngiadau amser yn berthnasol i aelodau eraill o'r Pwyllgor ond dylid cynnal adolygiad bob blwyddyn i sicrhau cynrychiolaeth deg a dilyniant o ran aelodaeth.

5. *Presenoldeb*

Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddoethineb, wahodd swyddogion eraill yn y Brifysgol, fel y bo'n briodol, i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

6. *Cworwm*

Bydd un traean o aelodaeth y Pwyllgor yn gworwm.

7. **Diben**

Diben y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yw goruchwylio derbyniadau i’r Brifysgol a datblygu polisïau ar gyfer y Brifysgol o ran recriwtio a derbyn myfyrwyr newydd.

8. *Cylch Gorchwyl*

8.1 Dyletswyddau'r Pwyllgor fydd:

- Datblygu strategaethau i recriwtio myfyrwyr;
- Goruchwylio derbyniadau i’r Brifysgol;
- Adolygu’r polisi derbyn a’r egwyddorion derbyn bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn galluogi’r Brifysgol i gyflawni ei nodau;
- Monitro gweithgarwch derbyn myfyrwyr i sicrhau bod y polisi a'r egwyddorion derbyn yn cael eu gweithredu’n gywir;
- Sicrhau bod Tiwtoriaid Derbyn yn cael eu hyfforddi;
- Annog cysondeb wrth wneud penderfyniadau ar dderbyn a sicrhau bod hyn yn ystyried polisïau cyfle cyfartal perthnasol sy’n gysylltiedig â myfyrwyr e.e. anabledd, cydraddoldeb hiliol;
- Adolygu a datblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ehangu cyfranogiad;
- Cynghori'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol ar bennu targedau'r Brifysgol mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr newydd a thargedau penodol ar gyfer pob Coleg/adran yn y Brifysgol;

- Cysylltu â phwyllgorau eraill y Senedd a chyfeirio materion o ddiddordeb at sylw'r rhain.

*8.2 Dyletswyddau eraill yn ei gylch gorchwyl*

- Derbyn manylion am yr Ysgoloriaethau Mynediad Chwaraeon a Cherddoriaeth
- Dyrannu Bwrsariaethau Ôl-raddedig a Addysgir yn strategol i'r Colegau/adrannau.
- Gweinyddu'r Ysgoloriaethau Mynediad Israddedig
- Cyflwyno argymhellion i'r Senedd ar faterion sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr newydd

*8.3 Is-bwyllgorau/Grwpiau Eraill*

*- Y Panel Matriciwleiddio*

- Cynnal ac adolygu gofynion matriciwleiddio ar gyfer rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig;
- Ystyried ac ymdrin â phob achos arbennig nad yw'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion matriciwleiddio israddedig (lle bo hynny'n briodol) ac ôl-raddedig;
- Datrys pob mater ynghylch dehongli'r rheoliadau matriciwleiddio lle mae angen barn am fater academaidd;
- Datrys pob mater arall sy'n cael ei gyfeirio ato gan y Bwrdd Academaidd a gwneud argymhellion ynghylch newidiadau am y dyfodol i'r Bwrdd Academaidd.

Ystyried unrhyw faterion eraill a gyfeirir at sylw'r Pwyllgor gan y Senedd.

8.4 *Adolygiad Effeithiolrwydd*

Adolygu'n flynyddol effeithiolrwydd y Pwyllgor yn erbyn ei gylch gorchwyl a chynnig argymhellion ar gyfer newid i'r Senedd.

*8.5 Pwerau*

i. Gweithredu ag awdurdod a ddirprwywyd gan y Senedd ac a gynhwysir yn ei Gylch Gorchwyl;
ii. Sefydlu'r fath grwpiau tasg a gorffen sy'n angenrheidiol i hwyluso busnes y Pwyllgor;

*Cyflwynwyd i'r Senedd i'w gymeradwyo: ..Chwefror 2021*
*Cymeradwywyd gan y Senedd: …………….... MNSEN ……. Cofnod……….*
*Dyddiad Adolygu Nesaf: ……………….....Hydref 2021*